OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1345 (Cy. 347)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Tachwedd 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *1 Rhagfyr 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Chwefror 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 126A(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 126A(4) a (6) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Trysorlys, pan feddyliant fod hynny'n briodol, ac mae'r Trysorlys wedi cydsynio i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Chwefror 2022.

### Diwygiadau i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen (Cyrff Dynodedig), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"Angels Invest Wales Limited (rhif y cwmni 04601844)"

"Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru"(**3**)

"Comisiynydd y Gymraeg"(**4**)

(**1**) 2006 p. 32; mewnosodwyd adran 126A gan adran 44(2) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (p. 25). Diwygiwyd is-adrannau (9) a (10) o adran 126A gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1), adran 9 ac Atodlen 1, paragraff 2(6)(a) a (b) yn y drefn honno.

(**2**) O.S. 2018/1173 (Cy. 237), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1483 (Cy. 267).

(**3**) Sefydlwyd gan adran 17(1) o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

(**4**) Sefydlwyd gan adran 2(1) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1).

"Comisiynydd Plant Cymru"(**5**)

"Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru"(**6**)

"Cwmni Egino Limited (rhif y cwmni 13475029)"

"DBW FM Limited (rhif y cwmni 01833687)"

"DBW Holdings Limited (rhif y cwmni 10965662)"

"DBW Investments (2) Limited (rhif y cwmni 04811750)"

"DBW Investments (3) Limited (rhif y cwmni 05210122)"

"DBW Investments (4) Limited (rhif y cwmni 05433301)"

"DBW Investments (5) Limited (rhif y cwmni 06350427)"

"DBW Investments (6) Limited (rhif y cwmni 06763979)"

"DBW Investments (8) Limited (rhif y cwmni 07986338)"

"DBW Investments (9) Limited (rhif y cwmni 07986371)"

"DBW Investments (10) Limited (rhif y cwmni 07986246)"

"DBW Investments (11) Limited (rhif y cwmni 08516240)"

"DBW Investments (12) Limited (rhif y cwmni 10184816)"

"DBW Investments (14) Limited (rhif y cwmni 10184892)"

"DBW Investments (MIMS) Limited (rhif y cwmni 12324765)"

"DBW Managers Limited (rhif y cwmni 10964943)"

"DBW Services Limited (rhif y cwmni 10911833)"

"Development Bank of Wales Public Limited Company (rhif y cwmni 04055414)"

"Economic Intelligence Wales Limited (rhif y cwmni 11001584)"

"FWC Loans (North West) Limited (rhif y cwmni 10627745)"

"FWC Loans (TVC) Limited (rhif y cwmni 10628006)"

"FW Development Capital (North West) GP Limited (rhif y cwmni 08355233)"

"GCRE Limited (rhif y cwmni 13583670)"

"Help to Buy (Wales) Limited (rhif y cwmni 08708403)"

"Iechyd a Gofal Digidol Cymru"(**7**)

"Management Succession GP Limited (rhif y cwmni 10655798)"

"North East Property LP (rhif y cwmni LP017936)"

"North West Loans Limited (rhif y cwmni 07397297)"

"North West Loans NPIF GP Limited (rhif y cwmni 10597240)"

"TfW Innovation Services Limited (rhif y cwmni 13081802)"

"Transport for Wales Rail Ltd (rhif y cwmni 12619906)"

"TVC Loans NPIF GP Limited (rhif y cwmni 10597208)"

"TVUPB Limited (rhif y cwmni 08516331)".

(**5**) Sefydlwyd gan adran 72(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14).
(**6**) Sefydlwyd gan adran 1(1) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (p. 30).
(**7**) Yn rhinwedd adran 22 (Awdurdodau Iechyd Arbennig) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42) ("Deddf 2006"), caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, sefydlu cyrff arbennig (y cyfeirir atynt yn Neddf 2006 fel "Special Health Authorities") at y diben o arfer unrhyw swyddogaethau a roddir iddynt gan y Ddeddf honno neu oddi tani. Sefydlodd erthygl 2 o Orchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020 (O.S 2020/1451 (Cy. 313)), a wnaed o dan yr adran honno, yr Awdurdod Iechyd Arbennig, Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

29 Tachwedd 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ("Gorchymyn 2018"). Mae'n mewnosod 38 o gyrff newydd yn y rhestr o gyrff dynodedig a gynhwysir yn yr Atodlen i Orchymyn 2018.

Effaith y diwygiad hwn yw y caniateir i'r adnoddau y disgwylir eu defnyddio gan y cyrff a fewnosodir yn yr Atodlen gan y Gorchymyn hwn gael eu cynnwys mewn cynnig Cyllidebol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.